**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL YNNI PRYDAIN FAWR 2024**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (Rh.S.) 29.2. Mae Rh.S. 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cafodd Bil Ynni Prydain Fawr 2024 ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Gorffennaf 2024. Mae'r Bil ar gael yn: [Bil Ynni Prydain Fawr - Biliau Seneddol - Senedd y DU]

## Amcan y polisi

3. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw bod cwmni Ynni Prydain Fawr yn sbarduno ynni glân, yn creu swyddi, yn ein gwneud yn annibynnol o ran ynni ac yn rhoi gwerth eu harian i drethdalwyr y DU.

4. Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bwriedir i Ynni Prydain Fawr weithio mewn partneriaeth â diwydiant ac undebau, yn ogystal â chyda chymunedau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i fuddsoddi mewn ynni glân a'i sbarduno. Bwriad y polisi hefyd yw bod Ynni Prydain Fawr yn datblygu prosiectau ynni glân, buddsoddi ynddynt a bod yn berchen arnynt, er mwyn dadrisgio a phrysuro prosiectau a rhoi cymorth lle ceir bwlch yn y farchnad.

5. Yn unol â'i amcanion y mae'r Bil yn ceisio eu pennu, bwriedir i Ynni Prydain Fawr ymwneud â phob agwedd ar brosiectau ynni glân, gan gynnwys eu dylunio, eu datblygu, eu hadeiladu, eu comisiynu a'u rhedeg. Bwriedir i'r polisi gynnwys cefnogi seilwaith ar draws y gadwyn cyflenwi ynni glân, sefydlu'r Cynllun Pŵer Lleol a mesurau i helpu i ddiogelu'r cyflenwad ynni a defnyddio ynni'n effeithlon.

6. Mae Llywodraeth y DU am i Ynni Prydain Fawr allu cefnogi diwydiant, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol trwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys trwy ddarparu ymhlith pethau eraill, ecwiti, benthyciadau, grantiau, yswiriant a gwarantau. Nid yw Llywodraeth y DU am i Ynni Prydain Fawr fod yn gwmni manwerthu ynni na chyflenwi ynni yn uniongyrchol i aelwydydd.

7. Byddai cwmpas gweithgareddau Ynni Prydain Fawr yn cynnwys:

---

[1]Nodwch, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y byddwn yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

a) ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i sbarduno rhoi ynni glân ar waith. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, buddsoddi mewn technolegau newydd a chreu partneriaethau â'r sector preifat i gyflymu cyflwyno technolegau aeddfed

b) buddsoddi mewn prosiectau ynni sy'n helpu i ddatgarboneiddio'r system ynni, perchen ar y prosiectau hynny a'u rheoli a'u rhedeg. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gosod seilwaith dal carbon mewn pwerdai

c) cefnogi datgarboneiddio drwy fesurau arbed ynni, er enghraifft: prosiectau sy'n mynd i'r afael â chynhyrchu ac arbed ynni gyda'i gilydd

d) cefnogi annibyniaeth ynni'r DU a diogelu'r cyflenwad ynni

**Crynodeb o'r Bil**

8. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi Ynni Prydain Fawr yn gwmni sy'n eiddo i'r cyhoedd. Byddai'r Bil yn cyfyngu amcanion y cwmni i hwyluso, annog a chymryd rhan yn y canlynol:

- cynhyrchu, dosbarthu, storio a chyflenwi ynni glân,
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ynni a gynhyrchir o danwydd ffosil,
- defnyddio ynni'n fwy effeithlon, a
- mesurau i ddiogelu'r cyflenwad ynni.

9. Mae'r Bil yn darparu hefyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi cymorth ariannol i'r cwmni, yn gosod ei flaenoriaethau strategol ac yn rhoi cyfarwyddyd gorfodol iddo a bod cyfrifon blynyddol y cwmni yn cael eu darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'u gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

10. Cyn cyflwyno'r Bil, bu swyddogion Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod bwriad y polisi Ynni Prydain Fawr. Hefyd, rhannwyd copi drafft o'r Bil â swyddogion cyn ei gyflwyno. Oherwydd prinder amser, cyfyngwyd yr ymgysylltu hwn i rannu gwybodaeth ac ni chafwyd cyfle i gyd-ddatblygu polisi na gofyn am fewnbwn wrth ddrafftio'r Bil.

11. Ceir gorgyffwrdd rhwng nodau a gweithrediadau Ynni Prydain Fawr a gweithrediadau presennol Llywodraeth Cymru, yn fwyaf arbennig drwy'r cwmni Trydan Gwyrdd Cymru. Cwmni wedi'i sefydlu gan Weinidogion Cymru yw Trydan Gwyrdd Cymru, i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystâd Llywodraeth Cymru.

12. Ni fydd y Bil yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i barhau i gefnogi Trydan Gwyrdd Cymru gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt eisoes. Ond oherwydd lefel strategol uchel y Bil hwn a'r wybodaeth sydd

ar gael am Ynni Prydain Fawr yn gyffredinol ar hyn o bryd, mae'n anodd gwybod beth fydd effaith gweithrediadau Ynni Prydain Fawr fel cwmni na beth fydd gwrthdaro’r gystadleuaeth bosib â Trydan Gwyrdd Cymru neu agweddau eraill ar swyddogaethau cyflenwi ynni Llywodraeth Cymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau canlynol i'r graddau eu bod yn gwneud darpariaeth ynghylch Cymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; neu eu bod fel arall yn rhoi sylw i faterion datganoledig diogelu'r amgylchedd ac ansawdd aer, o ran hwyluso, annog a chymryd rhan yn y canlynol:

    - lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ynni a gynhyrchir o danwydd ffosil, sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd ac yn fater datganoledig, a
    - defnyddio ynni'n fwy effeithlon, sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd ac annog defnydd effeithlon o ynni trwy ddulliau heblaw gwahardd neu reoleiddio, sy'n faterion datganoledig.
    - cynhyrchu, dosbarthu, storio a chyflenwi ynni glân.

    *Cymal 1 (‘Great British Energy’)*

14. Mae cymal 1 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi cwmni sy'n eiddo i'r Goron fel "Great British Energy".

    *Cymal 2 (‘Crown status’)*

15. Mae cymal 2 yn nodi na ddylid ystyried Ynni Prydain Fawr fel rhan o'r Goron, ac ni ddylid ystyried bod ei eiddo yn eiddo i'r Goron.

    *Cymal 3 (‘Objects’)*

16. Mae cymal 3 yn nodi pa amcanion y mae'n rhaid eu cynnwys yn erthyglau cymdeithasu Ynni Prydain Fawr. Rhaid cyfyngu ei amcanion i hwyluso, annog a chymryd rhan yn y canlynol:
    (a) cynhyrchu, dosbarthu, storio a chyflenwi ynni glân,
    (b) lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ynni a gynhyrchir o danwydd ffosil,
    (c) defnyddio ynni'n fwy effeithlon, a
    (d) mesurau i ddiogelu'r cyflenwad ynni.

    *Cymal 4 – (‘Financial assistance’)*

17. Mae cymal 4 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cymorth ariannol i Ynni Prydain Fawr mewn amrywiaeth o ffurfiau.

    *Cymal 5 (‘Strategic priorities and plans’)*

18. Mae Cymal 5 yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael datgan y blaenoriaethau strategol y mae'n rhaid i Ynni Prydain Fawr eu nodi yn ei erthyglau cymdeithasu a gweithredu yn unol â hwy.

19. Cyn datgan blaenoriaethau strategol, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig os yw'r datganiad yn ymwneud â phwnc y gallai'r deddfwrfeydd datganoledig priodol ddeddfu arno.

20. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol osod copi o unrhyw ddatganiad gerbron Senedd y DU.

*Cymal 6 (‘Directions’)*

21. Mae cymal 6 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i Ynni Prydain Fawr. Rhaid i Ynni Prydain Fawr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath.

22. Cyn rhoi unrhyw gyfarwyddyd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag Ynni Prydain Fawr ac unrhyw berson priodol arall. Ar ôl rhoi cyfarwyddyd, rhaid ei osod gerbron Senedd y DU.

*Cymal 7 (‘Annual accounts and reports’)*

23. Mae cymal 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Ynni Prydain Fawr ddarparu copïau o'i gyfrifon a'i adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i osod copi gerbron Senedd y DU.

*Cymal 8 – (‘Extent, commencement and short title’)*

24. Mae cymal 8 yn nodi y byddai'r Ddeddf yn cwmpasu'r DU gyfan ac y daw i rym ar ddiwrnod ei phasio.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

25. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn.

**Goblygiadau ariannol**

26. Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru os bydd Senedd yn cydsynio bod y darpariaethau'n berthnasol i Gymru.

**Casgliad**

27. Yr argyfwng hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi deddfwriaeth i sefydlu Ynni Prydain Fawr i hwyluso ac annog datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, nid oes llawer o wybodaeth am nodau gweithredol ac ymarferol Ynni Prydain Fawr. Mae Cymru eisoes wedi bwrw yn ei blaen â gwaith yn

y maes hwn drwy Trydan Gwyrdd Cymru sy'n gwmni ynni cyhoeddus sydd eisoes wedi'i sefydlu i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru ar ystâd Llywodraeth Cymru.

28. Rydym yn gyffredinol yn cefnogi'r Bil a'r Ynni Prydain Fawr ond rydym am drafod ymhellach â Llywodraeth y DU ynghylch rôl Gweinidogion a Senedd Cymru yn y Bil.

29. Byddaf yn diweddaru'r Senedd ynghylch barn Llywodraeth Cymru ar y Bil hwn, ar ôl trafod â Llywodraeth y DU am y materion hynny a bwriad ei pholisi ar Ynni Prydain Fawr.

**Ken Skates AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**08/08/24**